

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Iau, 7 Tachwedd 2019 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston, Peter Scott, David Williams a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid (LG), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

Hefyd yn y cyfarfod:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:

Shân Morris – Prif Swyddog Cynorthwyol

Kevin Roberts – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pippa Hardwick – Rheolwr Cynllunio Cynorthwyol

Clare Budden - Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Clwyd Alyn

Cynghorydd Bobby Feeley - yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth

Cynghorydd Tony Thomas - Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Gareth Davies, Melvyn Mile a Rhys Thomas.

Rhian Evans - Cydlynnydd Craffu

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2019.

Ar y pwynt hwn, canmolodd y Cadeirydd safon y cofnodion gan ddiolch i staff y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD derbyn a chadarnhau cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2019 fel cofnod cywir.

5 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol, Shân Morris, y cyflwyniad - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (dosbarthwyd yn flaenorol). Hefyd yn bresennol o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) oedd Kevin Roberts, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, a Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol.

Eleni, roedd yr Awdurdod wedi bod yn gofyn i awdurdodau lleol am ddatblygu Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwy hirdymor. Beth ddylai'r Strategaeth ei chynnwys? Beth ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod o ran cynllunio ar gyfer yr 20 neu 30 mlynedd nesaf? Pa syniadau sydd gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer y gwasanaethau a allai eu darparu yn y degawdau nesaf?

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi gweithio'n agos gydag adrannau gofal cymdeithasol cynghorau, sectorau iechyd a thrydydd sectorau i allu cysylltu â dinasyddion mwyaf diamddiffyn yr ardal. Cafodd 20,000 o wiriadau cartref eu cynnal a nifer y galwadau i fynd allan wedi lleihau o 50% dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ystod gwiriadau cartref, cafodd problemau megis diogelwch a cham-drin domestig eu hatgyfeirio i'r cyngor.

Cynhaliwyd trafodaethau rhwng yr Awdurdod a Gofal a Thrwsio. Mae Gofal a Thrwsio yn elusen sy'n helpu pobl hŷn yng Nghymru i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maen nhw'n cynnig cymorth ymarferol, o ddarparu addasiadau mawr i'r bobl fwyaf anghenus i gynnig cyngor ac argymhellion i bobl sydd angen gweithwyr proffesiynol dibynadwy i wneud gwaith. Byddai cyfranogiad Gofal a Thrwsio yn galluogi i un sefydliad gynnal nifer o swyddi, a fyddai'n well ar gyfer unigolion diamddiffyn yn ogystal â'r amgylchedd.

- Tynnwyd sylw at gyflogaeth Swyddog Rhostiroedd. Cadarnhawyd y byddai Sir Ddinbych yn debygol o fod yn barod i gynnal y swydd gyda thrafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch cyllid. Hyd yma, doedd dim mwy o wybodaeth o ran pryd y byddai'r swydd Swyddog Rhostiroedd yn cael ei gadarnhau.
- Esboniodd y Prif Weithredwr Bolisi Trydan yn Gyntaf Sir Ddinbych. Pe bai cerbyd ar fin cael ei newid, byddai cerbyd trydan yn dod yn ei le lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Cadarnhaodd Shân Morris nad oedd Polisi o'r fath ar waith yn yr Awdurdod. Cytunwyd y dylid rhannu'r Polisi Trydan yn Gyntaf gyda'r Awdurdod i helpu.

- Trefnwyd yr ymateb brys o amgylch 44 o orsafoedd tân ledled Gogledd Cymru gyda fflyd o 54 o beiriannau tân a 35 o offer eraill gan gynnwys unedau diogelu'r amgylchedd, llwyfannau ysgolion awyr, cerbydau mynediad cul, cludwyr ewyn, cychod, achub technegol ac unedau gorchymyn digwyddiadau.
Cynhaliodd fflyd "gwyn" o dros 100 o gerbydau ar gyfer gwaith nad yw o natur frys hefyd. Gellid newid y fflyd o gerbydau "gwyn" am gerbydau trydan mewn amser, ond ni ellid gwneud yr un fath gyda'r cerbydau "coch".
- Roedd 71% o gyllideb yr Awdurdod ar gyfer costau gweithwyr. 20% yn gostau di-dâl. 10% ar gyllid cyfalaf a chyfwerth ag 1% yn dod drwy incwm.
- Sut y gallai newid hinsawdd effeithio ar adnoddau – mae asesiad risg eto i'w gynnal o ran sut y gallai newid hinsawdd effeithio ar adnoddau.
Roedd cynllun peilot ar fin dechrau ar gyfer mesur yr ôl troed carbon. Roedd yr Ymgynghorwyr, Etha, yn ymwybodol o'r problemau a'r anawsterau.

Esboniodd y Cynghorydd Joan Butterfield am banel newydd a ffurfiwyd yn Sir Ddinbych, y Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol. Gofynnodd y Prif Swyddog Cynorthwyol Morris am gael golwg ar weithgareddau a mentrau'r Grŵp. Roedd posibilrwydd y gellid rhannu gwybodaeth trwy gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Nid oedd cyllid ar gael i'r Awdurdod i ddarparu monitorau Carbon Monocsid ond roedd Gofal a Thrwsio yn gallu eu darparu i unigolion diamddiffyn.
- O ran adeiladau uchel, cadarnhawyd bod llwyfannau ysgolion awyr wedi'u lleoli mewn ardaloedd yng Ngogledd Cymru er mwyn iddyn nhw allu mynd i unrhyw ddigwyddiad o fewn 30 munud.
Roedd y "Polisi Aros Yno" wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer ond nid oedd wedi gweithio ym mloc twr Grenville oherwydd y cladin a'r ffenestri. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen yn barhaus gyda Rheolwyr Adeiladau ac roedd cynlluniau gadael ar waith.

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Pwyllgor i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am yr holl waith yr oedden nhw wedi ei wneud.

PENDERFYNWYD:

- *Bod y Pwyllgor Craffu Partneriaeth yn nodi Strategaeth Amgylchedd a Chynaliadwyedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru*
- *Gofyn i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ystyried swydd Swyddog Rhostir gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Dinbych*
- *Rhannu Gweithgarwch Corfforaethol - Polisi Trydan yn Gyntaf gydag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru*
- *Rhannu model newid hinsawdd a gwybodaeth am waith ymateb brys gydag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.*

6 CYLLIDEBAU CEFNOGAETH AR GYFER POBL AG ANGHENION CYMORTH A GOFAL CYMWYS

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth, y Cynghorydd Bobby Feeley, yr adroddiad Cyllidebau Cymorth i Bobl ag Anghenion Gofal a Chefnogaeth Cymwys (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i roi sicrwydd o gyflawniad yn erbyn blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor sy'n ymwneud â chreu cymunedau cryf a chyflawni amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Roedd cyllidebau cymorth yn rhan o newid sylfaenol ym mholisi ac ymarfer gofal cymdeithasol, yn gofyn am newid arwyddocaol i systemau, prosesau, diwylliant ac ymarfer ym maes gofal cymdeithasol oedolion.

Roedd Cyllidebau Cymorth yn galluogi i ddinasyddion ddeall faint yw cost eu gofal, gan ganiatáu iddynt weithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Ar ôl cytuno ar y deilliannau cymwys, bydd yr asesydd a'r dinesydd yn defnyddio'r Olwyn Adnoddau - proses lle maen nhw'n cytuno pa ofal a chymorth oedd ar gael drwy'r asedau ar gael iddynt e.e. eu teulu, yr eglwys, ffrindiau, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol.

Yn ystod trafodaethau manwl, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod pob sefyllfa wedi'i hasesu yn ôl ei haeddiant ei hun.
- Byddai gwaith monitro'r cynllun gofal a reolir yn cael ei wneud trwy adolygiadau rheolaidd.
- O ran bod y system yn fwy cost effeithiol, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nad oedd y cyllidebau wedi'u gwahanu ar hyn o bryd, ond byddai'n cysylltu â'r adran gyllid i ddarganfod a ellid hwyluso dadansoddiad.
- Roedd llyw-wyr cymunedol yn gyswllt â'r gwasanaethau cymdeithasol ac roedd disgwyl hefyd i staff Sir Ddinbych sy'n gweithio yn y gymuned sianelu a nodi unrhyw bobl sydd angen cymorth.
- Mae gan Sir Ddinbych berthynas waith dda gyda CAB, sy'n is-gontractio i'r Siop Cyngor Budd-daliadau.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cydnabod y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu, hyrwyddo a lledaenu cyllidebau cymorth i bobl sy'n gymwys i'w cael.

Ar y pwynt hwn (11.30 am) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.40am.

7 UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI (SARTH)

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau yr adroddiad Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i fanylu ar weithrediad SARTH sy'n delio â sut caiff ceisiadau am dai cymdeithasol eu rheoli.

SARTH yw “Un Llwybr Mynediad at Dai”, sef yr enw a roddir ar y polisi Dyrannu Tai Cyffredin rhwng cynghorau Sir Ddinbych, Sir Y Fflint a Chonwy, ynghyd â'r Cymdeithasau Tai (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) sydd yn gweithredu yn y siroedd hyn.

Roedd y polisi yn sicrhau bod dyraniadau tai cymdeithasol yn cael eu darparu yn unol â'r ddeddfwriaeth tai (Deddf Tai 1996, Tai (Cymru) 2014) a Chod Canllawiau ar gyfer Dyrannu Llety. Roedd hyn yn angenrheidiol i liniaru'r risg o her gyfreithiol ond hefyd i sicrhau y dyrannwyd tai i'r rhai sydd â'r angen fwyaf.

Cafodd gweithrediad cyffredinol y polisi ei fonitro gan Grŵp Llywio Rhanbarthol a oedd yn cynnwys Cyngor Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Tra roedd y polisi yn bartneriaeth ar y cyd rhwng y 3 sir, roedd darparu'r gofrestr tai cyffredin yn gyfrifoldeb unigol i bob sir. Yn Sir Ddinbych, roedd un cofrestr ar gyfer yr holl dai cymdeithasol sy'n cael eu gosod gan y cyngor, a'r 6 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd yn gweithredu o fewn Sir Ddinbych.

O ran darpariaeth weithredol cofrestr gyffredin Sir Ddinbych, gwnaed penderfyniad ym mis Medi 2016 i fynd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, gan eu bod eisoes yn darparu'r gwasanaeth ac wedi bod drwy'r broses o newid sylweddol i sicrhau gweithrediad didrafferth o'r gwasanaeth.

Roedd y gwasanaeth yn cynnwys ymdrin â dros 300 o alwadau yr wythnos. Cafodd achosion eu cyfeirio'n aml at wasanaethau eraill megis Atal Digartrefedd, Gorfodi Tai, Tai Teg a gwasanaethau cynnal hefyd. Roedd ymdrin â galwadau a gohebiaeth ysgrifenedig yn cynnwys brand Sir Ddinbych a nid oedd cwsmeriaid yn ymwybodol o leoliad y staff.

Roedd cost cyflwyno'r bartneriaeth yn llai na'r gost i ddarparu'r gwasanaeth yn unig. Y gost flynyddol gyfredol i Sir Ddinbych oedd £52k.

Cafodd perfformiad a'r weithred o gytundeb partneriaeth gyda Sir y Fflint ei fonitro i sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu darparu a'u cynnal gan gynnwys perfformiad ateb galwadau.

Cadarnhaodd Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Clare Budden fod llety yn brin a bod diffyg llety yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sengl. Roedd Clwyd Alyn wedi derbyn cyllid adfywio gan Lywodraeth Cymru ac roeddent yn y broses o wagio cartrefi yn Stryd Edward Henry, Y Rhyl, yn barod ar gyfer dymchwel ac adeiladu eiddo newydd.

Rhoddyd crynodeb byr o'r prosiectau yr oedd Clwyd Alyn wedi'u cynnal mewn gwahanol feysydd yn ddiweddar.

Cadarnhawyd bod y cais am dai yn wasanaeth ffôn a oedd yn broses haws i ymgeiswyr. Atebwyd y rhif ffôn ar gyfer SARTH gan bobl a oedd yn arbenigwyr technegol ac, felly, hwn oedd y rhif gorau i bobl ei ffonio i siarad ynghylch opsiynau ar gyfer tai.

Os oedd gan unrhyw un ddiddordeb mewn cydberchnogaeth, Tai Teg oedd y sefydliad i gysylltu ag o. Byddai llinell ffôn SARTH yn gofyn yr holl gwestiynau perthnasol i ddarganfod p'un a oedd gan yr ymgeisydd ddiddordeb mewn rhentu eiddo neu gyd-berchnogaeth ac yna byddent yn cael eu cyfeirio at y person/sefydliad gorau i'w cynorthwyo.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau i'r swyddogion ac yn enwedig Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Clwyd Alyn am fynychu'r cyfarfod a darparu cymaint o wybodaeth werth chweil.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor, gan roi diweddariad ar faterion perthnasol.

19 Rhagfyr 2019 - Aelod Arweiniol, gwahodd y Cynghorydd Bobby Feeley i fynychu.

Cadarnhaodd pawb a oedd yn bresennol y cynrychiolwyr ar y Grwpiau Her Gwasanaeth.

PENDERFYNWYD:

- (i) cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
- (ii) Cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu Partneriaeth y cynrychiolwyr ar y Grwpiau Her Gwasanaeth

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cynghorydd Peter Scott ei fod wedi mynychu cyfarfod Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn Ysgol St. Brigid's yn Ninbych, a aeth yn dda iawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50 p.m.